Image not found or type unknown

# Asesiad gan gyflogwr ar gyfer cofrestru gweithiwr gofal cymdeithasol

Dylai cyflogwyr ddefnyddio’r canllaw hwn i benderfynu a yw gweithiwr gofal cymdeithasol yn addas i ymarfer ac a oes ganddo’r ddealltwriaeth briodol i wneud cais i gofrestru gyda ni.

Cyhoeddwyd gyntaf: 18 Mai 2022

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/asesiad-gan-gyflogwr/asesiad-cyflogwr-cofrestru am y fersiwn diweddaraf.

Dylai cyflogwyr ddefnyddio’r canllaw hwn i benderfynu a yw gweithiwr gofal cymdeithasol yn addas i ymarfer ac a oes ganddo’r ddealltwriaeth briodol i wneud cais i gofrestru gyda ni.

Mae’r cymwyseddau a restrir wedi’u seilio ar ddealltwriaeth gweithiwr gofal cymdeithasol o egwyddorion gofal cymdeithasol yng Nghymru, y bydd arno eu hangen i gyflawni ei rôl.

Dylai cyflogwyr ddarllen y rhestr a chymeradwyo cais y gweithiwr os ydynt yn fodlon bod y gweithiwr yn meddu ar y ddealltwriaeth briodol.

## Tystiolaeth

Yn ôl y gyfraith, mae’n ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol ddangos tystiolaeth o’u dealltwriaeth fel rhan o’u cais i gofrestru. Bydd y canllaw hwn yn helpu gweithwyr gofal cymdeithasol a’u cyflogwyr i ddarparu’r dystiolaeth briodol.

Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) weld sampl o’r dystiolaeth a ddefnyddioch i ategu eich penderfyniad, felly dylech sicrhau ei bod ar gael i ni os gofynnwn amdani. Gallwch ddefnyddio’r cofnod tystiolaeth hwn i gofnodi’ch tystiolaeth.

Gallai enghreifftiau o dystiolaeth gynnwys y canlynol (ond nid yw’n gyfyngedig iddynt):

- adolygiad o gyfnod prawf a gweithgareddau sefydlu
- cofnodion hyfforddiant neu fynychu cyrsiau
- tystysgrifau a gafwyd trwy hyfforddiant asesedig, fel symud a thrafod, cymorth cyntaf a hylendid bwyd
- nodiadau arsylwi, trafodaethau, goruchwyliaeth a/neu arfarnu

- cyfarfodydd tîm
- cwblhau’r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd neu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan
- adborth gan gydweithwyr a phobl sy’n defnyddio gofal a chymorth.

## Sut i gadarnhau asesiad gan gyflogwr

Llenwch yr adrannau perthnasol a rhowch dystiolaeth o sut mae’r gweithiwr gofal cymdeithasol wedi dangos ei ddealltwriaeth briodol.

Yn rhan o’i gais, gofynnir i’r gweithiwr gofal cymdeithasol nodi ei reolwr o restr ar GCCar-lein. Cysylltir â’r rheolwr drwy e-bost i gadarnhau’r cais.

Dyma fideo i gyflogwyr i'w helpu i ddeall sut i reoli ceisiadau asesu cyflogwr rydym yn eu gwneud yn eu cyfrif GCCarlein.

> Gweld trawsgrifiad
>
> 0:04 --> 00:07
>
> Mae hyn yn ganllaw i gyflogwr ar
>
> 0:07 --> 00:09
>
> gwblhau’r broses o assesu
>
> 0:09 --> 00:10
>
> cyflogwr.
>
> 0:15 --> 00:17
>
> Os yw aelod o'ch sefydliad

0:17 --> 00:20

wedi gwneud cais i gofrestru trwy'r llwybr

0:20 --> 00:22

asesiad cyflogwr

0:22 --> 00:23

bydd angen i chi gwblhau'r

0:23 --> 00:26

cais asesiad cyflogwr ar-lein cyn

0:26 --> 00:29

y gallant gofrestru. Sylwch mai dim ond

0:29 --> 00:31

rheolwyr cofrestredig sydd â rôl ‘asesydd

0:31 --> 00:33

cymhwysedd’ fydd yn gallu cwblhau’r

0:33 --> 00:35

ceisiadau hyn.

0:35 --> 00:38

Bydd ceisiadau asesiad cyflogwr

0:38 --> 00:41

sydd heb eu cwblhau yn ymddangos o dan

0:41 --> 00:42

‘ceisiadau am gymeradwyaeth’

0:42 --> 00:44

a bydd ganddynt fath o ardystiad

0:44 --> 00:46

‘cadarnhau cymhwysedd’.

0:46 --> 00:48

os hoffech weld y cais cysylltiedig

0:48 --> 00:50

yn llawn, cliciwch ar

0:50 --> 00:53

‘gweld ffurflen cais’.

0:53 --> 00:56

Y tu mewn i gofnod asesiad y cyflogwr,

0:56 --> 00:58

mae dolen ‘cymorth’ sy’n rhoi

0:58 --> 01:01

eglurhad ar y gofynion a’r

1:01 --> 01:04

meini prawf i ymgeisydd ddefnyddio’r

1:04 --> 01:06

llwybr asesu cyflogwr.Yn gyntaf bydd

1:06 --> 01:08

angen i chi ymgyfarwyddo â’r wybodaeth ar

1:08 --> 01:12

y dudalen gymorth hon.

1:12 --> 01:14

Darllenwch drwy'r meysydd a restrir y

1:14 --> 01:16

mae'n rhaid i weithiwr gofal eu deall er mwyn

1:16 --> 01:19

defnyddio llwybr asesu'r cyflogwr. Os ydych

1:19 --> 01:21

yn hyderus bod gan yr ymgeisydd y ddealltwriaeth

1:21 --> 01:23

briodol i gofrestru drwy’r

1:23 --> 01:26

> llwybr asesu cyflogwr,
>
> 1:26 --> 01:28
>
> cliciwch ar ‘cadarnhau y gall wneud cais’.
>
> 1:28 --> 01:31
>
> Gallwch hefyd gynnwys rhagor
>
> 1:31 --> 01:32
>
> o wybodaeth yma os dymunwch.
>
> 1:32 --> 01:35
>
> Yn olaf, cliciwch cyflwyno i
>
> 1:35 --> 01:40
>
> gwblhau’r cais asesiad cyflogwr.

**Gallwch lawrlwytho'r ffurflen asesiad gan gyflogwr a'r cofnod tystiolaeth isod.** Nid oes angen i chi anfon eich cofnod tystiolaeth atom gan nad ydym yn gofyn amdano fel rhan o gais. Mae'n bosib y byddwn yn cynnal archwiliadau sampl a gofyn am gopïau o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud eich penderfyniad.

> Ffurflen asesiad gan gyflogwr
>
> DOCX 67KB

> Ffurflen asesiad gan gyflogwr - fersiwn ddwyieithog
>
> DOCX 71KB

Cofnod tystiolaeth

DOCX 65KB

Cofnod tystiolaeth - fersiwn ddwyieithog

DOCX 66KB

Darllenwch y cwestiynau cyffredin a ofynnir am y newidiadau.